



3/18 Eagle Wing  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau  
Cwsmeriaid: 0303 444 5000  
e-bost: [NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk](mailto:NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk)

---

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020014

Dyddiad: 16 Tachwedd 2015

---

Annwyl

**Deddf Cynllunio 2008 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Caffaeliad Gorfodol) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheoliadau 11 a 13 -17 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheol 8(3)**

**Cais gan SP MANWEB am Orchymyn sy'n rhoi Cydsyniad Datblygu ar gyfer Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru**

### **Amserlen ar gyfer archwilio Opsiwn B**

Ysgrifennaf i roi gwybod i chi am sut mae'r Awdurdod Archwilio yn bwriadu archwilio cynnig Opsiwn B a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, gan gynnwys y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol a gorfodi cyfyngiadau dros dir ychwanegol. Mae Opsiwn B, a gyflwynwyd ar 16 Medi 2015, yn cynnwys safleoedd amgen ar gyfer 16 o glystyrau polion.

Yn ogystal, mae'r llythyr hwn yn hysbysu am ein gwrandawiadau sydd i ddod a chyfle i newid ein hamserlen archwilio.

### **Sut y caiff Opsiwn B ei archwilio**

Diolch i'r partion sydd wedi darparu sylwadau ar gynigion Opsiwn B. Mae'r rhain wedi ein helpu i baratoi ein hasesiad cychwynnol o faterion, a atodir yn **Atodiad A**.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu nad oes angen cynnal cyfarfod er mwyn trafod sut y dylid archwilio'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol a gorfodi cyfyngiadau dros dir ychwanegol. Mae'r llythyr hwn yn cynnwys ein penderfyniadau gweithdrefnol ynglŷn â'r mater.

Bellach, gwahoddir partion â buddiant i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol a gorfodi cyfyngiadau dros dir ychwanegol erbyn hanner dydd ar ddydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015. Anfonwch y

rhain, lle bo'n ymarferol, fel atodiadau e-bost at [NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk](mailto:NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk). Dylid labelu ffeiliau'n glir ac ni ddylent fod yn fwy na 12 MB ar gyfer pob neges e-bost. Os ydynt am gael eu postio, dylid anfon sylwadau at Nicholas Coombes yn y cyfeiriad ar frig y llythyr hwn, wedi'u marcio NWWFC EN020014. Os yw unrhyw rai o'r dogfennau'n faint A3 (neu'n fwy) neu'n cynnwys mwy na 300 o dudalennau, darparwch bedwar copi papur o'r dogfennau.

Trefnwyd gwrandawriad caffaeliad gorfodol er mwyn galluogi unigolion yr effeithir arnynt i ddarparu sylwadau llafar i'r Awdurdod Archwilio ynglŷn â chaffaeliad hawliau gorfodol a gorfodi cyfyngiadau dros dir ychwanegol ar gyfer dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 yn dechrau am 10.00y.b. Yn ogystal, trefnwyd cyfarfod llawr agored ar ddydd Mercher 9 Rhagfyr 2015, yn dechrau am 5.30y.p er mwyn galluogi partion â buddiant ac unigolion yr effeithir arnynt i ddarparu sylwadau llafar mewn perthynas â materion Opsiwn B. Yn ogystal, bydd y gwrandawriadau hyn yn galluogi partion â buddiant i ddarparu rhagor o sylwadau llafar mewn perthynas ag Opsiwn A (y cais gwreiddiol) os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Rhoddir manylion y gwrandawriadau yn **Atodiad C**.

## Hysbysiad o wrandawriadau

Mae'r Awdurdod Archwilio yn hysbysu yn **Atodiad C** y gwrandawriadau a gynllunnir ar gyfer dydd Mawrth 8 Rhagfyr tan ddydd Iau 10 Rhagfyr 2015. Bydd gwrandawriadau sy'n benodol i faterion, rhai llawr agored, gwrandawriadau caffaeliad gorfodol a gwrandawriad i'r gorchymyn caniatâd datblygu drafft. Yn y gwrandawriadau hyn, bydd cyfleoedd ar gyfer sylwadau llafar ar Opsiwn B yn ogystal â'r cais gwreiddiol (Opsiwn A). Os ydych yn dymuno cyfranogi yn y gwrandawriadau hyn, rhowch wybod i ni erbyn dydd Iau 3 Rhagfyr 2015. Caiff agendâu eu cyhoeddi un wythnos ymlaen llaw ar wefan y prosiect ar:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

Yn ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio, gofynnodd yr Awdurdod Archwilio a oedd unrhyw bartion â buddiant yn dymuno cael unrhyw arolygiadau safle ychwanegol. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau hyd yma am arolygiad safle yng nghwmni Arolygydd. Os bydd gofyn am arolygiad safle yng nghwmni Arolygydd, bydd yn digwydd ar ddydd Gwener 11 Rhagfyr 2015 o 9.30y.b. Caiff rhaglen neu hysbysiad canslo ei gyhoeddi wythnos o flaen llaw ar wefan y prosiect fel uchod.

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi trefnu i'r gwrandawriadau a'r cyflwyniadau cysylltiedig hyn ddod i ben cyn y Nadolig. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl i'r ymgeisydd hysbysu 21 diwrnod cyn y gwrandawriadau fel yr argymhellir yn Rheol 13(6) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010. Yn unol â Rheol 13(6), mae'r Awdurdod Archwilio'n rhoi cyfarwyddyd trwy hyn bod rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â Rheol 13(6) ddeunaw niwrnod cyn y gwrandawriadau a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth 8 Rhagfyr i ddydd Iau 10 Rhagfyr 2015.

## Newid i'r amserlen archwilio

Cafodd yr amserlen archwilio, yn **Atodiad B**, ei diweddarau er mwyn adlewyrchu'r uchod. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Archwilio wedi penderfynu cynnwys y ddarpariaeth i'r Awdurdod Archwilio gyhoeddi drafft ymgynghori ei hun o'r gorchymyn ymgynghori drafft o fewn yr amserlen ddiwygiedig (rhag ofn ei fod yn ystyried bod angen cyhoeddi un yn ddiweddarach yn yr archwiliad), felly mae'r dyddiad cyhoeddi ar

gyfer hyn yn gynwysedig yn yr amserlen ddiwygiedig. Nid yw hyn yn golygu bod yr Awdurdod Archwilio wedi penderfynu ar ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol. Os bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu cyhoeddi drafft ymgynghori ei hun o'r gorchymyn ymgynghori drafft, byddwn yn gwahodd sylwadau arno heb niweidio eich sefyllfa.

Diolch am eich diddordeb a'ch ymglymiad parhaus yn yr archwiliad hwn.

Yn gywir

*Lillian Harrison*

**Dr Lillian Harrison**  
**Aelod Blaen y Panel o Arolygwyr Archwilio**

**Atodiadau:**

- A. Aseiad o faterion cychwynnol
- B. Amserlen ddiwygiedig ar gyfer archwilio'r cais
- C. Hysbysiad o wrandawiadau
- D. Argaeledd dogfennau archwilio

Mae'n bosibl y rhoddir cyngor ar ymgeisio am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ar gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebu hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a chyngor proffesiynol eich hun, yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei roi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Diogelir preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol yn unol â'n Siarter Gwybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.

## **Asesiad o faterion cychwynnol**

Dyma asesiad o faterion cychwynnol sy'n deillio o ystyriaeth gan yr Awdurdod Archwilio o ddogfennau cais Opsiwn B a sylwadau perthnasol ychwanegol a dderbyniwyd.

Nid yw'n rhestr gynhwysfawr neu allgynhwysol o'r holl faterion perthnasol. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ystyried yr holl faterion pwysig a pherthnasol pan fydd yn ysgrifennu ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ôl i'r archwiliad ddod i ben.

Mae prif faterion ychwanegol a nodwyd mewn perthynas ag Opsiwn B yn perthyn i effaith cymryd tir ychwanegol ar fuddiannau amaethyddol yr effeithir arnynt a'r effeithiau ar blannu lliniaru.

Mae'r materion eraill a godwyd mewn sylwadau perthnasol ynglŷn ag Opsiwn B yn perthyn i faterion a nodwyd eisoes mewn perthynas ag asesiad cychwynnol y prif faterion ar gyfer Opsiwn A (y cais gwreiddiol)

**Amserlen ar gyfer archwilio'r cais wedi'i ddiwygio**

Mae'r Amserlen ar gyfer archwilio'r cais fel y'i diwygiwyd fel a ganlyn:

<b>Eitem</b>	<b>Materion</b>	<b>Erbyn pa ddyddiad</b>
14	<p><b>Dyddiad cau 6</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<b>Dydd Mercher 18 Tachwedd 2015 am hanner dydd</b>
15	<p><b>Dyddiad cau 7</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau ar ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio</li> <li>• Hysbysiad o ddymuniad i wneud sylwadau llafar yn gwrandawiadau mis Rhagfyr</li> </ul>	<b>Dydd Iau 3 Rhagfyr 2015am hanner dydd</b>
16	<p><b>Dyddiad cau 8</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau ysgrifenedig ynglyn y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael tir ychwanegol yn orfodol</li> </ul>	<b>Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015 am hanner dydd</b>
17	Gwrandawriad sy'n benodol i'r fater ar egwyddorion datblygu a materion amgylcheddol yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) costau a pholisi, asesiad tirwedd ac effaith weledol a materion hyfforddiant tir ynglyn a Opsiwn B ac unrhyw faterion dyledus ar Opsiwn A ar egwyddorion datblygu a materion amgylcheddol	<b>Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015 yn cychwyn am 10.00 y.b</b>
18	Gwrandawriad caffaeliad gorfodol ynglyn y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol a gorfodi cyfyngiadau dros dir ychwanegol ynglyn a Opsiwn B (yn ôl y gofyn)	<b>Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 yn cychwyn am 10.00 y.b</b>
19	Gwrandawriad caffaeliad gorfodol ynglyn unrhyw faterion dyledus ar Opsiwn A	
20	Gwrandawriad llawr agored ynglyn y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol a gorfodi cyfyngiadau dros dir ychwanegol ynglyn a Opsiwn B (yn ôl y gofyn)	<b>Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 yn cychwyn am</b>

21	Gwrandawriad llawr agored yn ymwneud a Opsiwn A (yn ôl y gofyn)	<b>5.30 y.p</b>
22	Gwrandawriad sy'n benodol i'r fater ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft ar gyfer Gorchymyn drafft Opsiwn B a unrhyw faterion dyledus ynglyn a Orchymyn ddrafft Opsiwn A	<b>Dydd Iau 10 Rhagfyr 2015 yn cychwyn am 10.00 y.b</b>
23	Dyddiad wedi'i chadw ar gyfer arolygiad y safle gyda chwmni (yn ôl y gofyn)	<b>Dydd Gwener 21 Rhagfyr 2015</b>
24	<b>Dyddiad cau 9</b> Dyddiad cau ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dogfennau wedi'r gwrandawriad</li> <li>• Gorchymyn Caniatâd Ddatblygu drafft yr ymgeisydd wedi'i ddiwygio</li> <li>• Sylwadau ar y sylwadau ysgrifenedig ynglyn y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael tir ychwanegol yn orfodol</li> <li>• Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<b>Dydd Llun 21 Rhagfyr 2015 am hanner dydd</b>
25	Cyhoeddi Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop	<b>Dydd Llun 21 Rhagfyr 2015</b>
26	Cyhoeddi Gorchymyn Caniatâd Ddatblygu ymgynghori drafft Awdurdod Archwilio (yn ôl y gofyn)	<b>Dydd Iau 7 Ionawr 2016</b>
27	<b>Dyddiad cau 10</b> Dyddiad cau ar gyfer derbyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sylwadau ar Gorchymyn Caniatâd Ddatblygu ymgynghori drafft Awdurdod Archwilio (yn ôl y gofyn) a'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop</li> <li>• Sylwadau ar dogfennau wedi'r gwrandawriad</li> <li>• Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<b>Dydd Iau 21 Ionawr 2016 am hanner dydd</b>

28	<p><b>Dyddiad cau 11</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymatebion i sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Ddatblygu ymgynghori drafft Awdurdod Archwilio (yn ôl y gofyn) a'r Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd yn Ewrop</li> <li>• Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr ymgeisydd wedi'i ddiwygio</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnir amdani gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<p><b>Dydd Iau 28 Ionawr 2016 am hanner dydd</b></p>
29	<p>Mae'r Awdurdod Archwilio o dan ddyletswydd i gwblhau archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol</p>	<p><b>Dydd Iau 28 Ionawr 2016</b></p>

## Hysbysiad o Wrandawiadau

Fel y nodwyd yn yr amserlen archwilio (Dyddiad Cau 7, Atodiad B), dylai y partion sydd â diddordeb sy'n dymuno gwneud sylw llafar mewn gwrandawriad hysbysu Nicholas Coombes ar [NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk](mailto:NWWFConnection@pins.gsi.gov.uk) neu gan ddefnyddio'r cyfeiriad post a'r flaen y llythyr hwn. Os gwelwch yn dda hysbysebwrch ni erbyn hanner dydd ar 3 Rhagfyr 2015. Byddai'n ein cynorthwyo gyda threfnu'r gwrandawriad pe gallech ddweud wrthym am unrhyw anghenion sydd gennych (e.e. mynediad i bobl anabl, dolen clyw ayyb). Yn ogystal, dylech ein hysbysu ymlaen llaw os ydych yn dymuno siarad Cymraeg neu ddefnyddio ein gwasanaethau cyfieithu. Sicrhewch eich bod yn cynnwys eich cyfeirnod parti â diddordeb yn eich gohebiaeth, a gwnewch yn glir pa wrandawriad(au) rydych yn dymuno cymryd rhan ynddo/ynddynt.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn darparu hysbysiad o'r wrandawiadau canlynol, mewn cydymffurfiad efo Rheol 13 o'r Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gewithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd).

**1. Gwrandawriad sy'n benodol i mater** ar egwyddorion datblygu a materion amgylcheddol yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) costau a pholisi, asesiad tirwedd ac effaith weledol a materion hyfforddiant tir ynglyn a Opsiwn B ac unrhyw faterion dyledus ar Opsiwn A ynglyn egwyddorion datblygu a materion amgylcheddol.

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2015

Amser y gwrandawriad: 10.00 y.b

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Diben gwrandawriad sy'n benodol i faterion yw trafod materion perthnasol a arweinir gan yr Awdurdod Archwilio. Dylai partion ddisgwyl gael eu holi gan yr Awdurdod Archwilio ac i gyfiawnhau eu datganiadau.

**2. Gwrandawriad caffael gorfodol ar y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol a gorfodi cyfyngiadau dros dir ychwanegol**

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015

Amser y gwrandawriad: 10.00 y.b

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Bydd y gwrandawriad hwn yn galluogi pobl yr effeithir arnynt annerch yr Awdurdod Archwilio ar faterion ynglŷn y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol cyfyngiadau dros dir ychwanegol yn ymwneud a Opsiwn B. Dylai pobl yr effeithir arnynt gofrestru ymlaen llaw eu bod yn dymuno cyfranogi a nodi'r lleiniau penodol a gâi eu heffeithio. Dylai partion ddisgwyl gael eu holi gan yr Awdurdod Archwilio ac i gyfiawnhau eu datganiadau.



### 3. Gwrandawriad caffael gorfodol

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015

Amser y gwrandawriad: yn union ar ôl y gwrandawriad flaenorol

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Diben y gwrandawriadau caffael gorfodol yw cael trafodaeth am rinweddau'r achos dros gaffael hawliau dros leiniau tir unigol. Caiff y gwrandawriadau eu harwain gan yr Awdurdod Archwilio, a bydd pobl yr effeithir arnynt (tirfeddianwyr, tenantiaid, ayyb) a'r ymgeisydd yn cymryd rhan. Dylai pobl yr effeithir arnynt gofrestru ymlaen llaw eu bod yn dymuno cyfranogi a nodi'r lleiniau penodol a gâi eu heffeithio. Dylai partïon ddisgwyl gael eu holi gan yr Awdurdod Archwilio ac i gyfiawnhau eu datganiadau. Does dim angen ailadrodd materion a chodwyd mewn gwrandawriad caffael gorfodol flaenorol.

### 4. Gwrandawriad llawr agored ar y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol a gorfodi cyfyngiadau dros dir ychwanegol

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015

Amser y gwrandawriad: 5:30 y.p

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Bydd y gwrandawriad hwn yn galluogi partïon sydd â diddordeb annerch yr Awdurdod Archwilio ar faterion yn ynglyn y ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer caffael hawliau gorfodol cyfyngiadau dros dir ychwanegol yn ymwneud a Opsiwn B. Caiff amser siarad ei rannu rhwng partïon sydd â diddordeb sy'n cofrestru ymlaen llaw. Mae'n bosibl y caiff partïon nad ydynt yn cofrestru ymlaen llaw eu clywed ar ddiwedd y cyfarfod os bydd amser ar gael, yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.

### 5. Gwrandawriad llawr agored

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Mercher 9 Rhagfyr 2015

Amser y gwrandawriad: yn union ar ôl y gwrandawriad flaenorol

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Diben yr ail gwrandawriad llawr agored hwn yw caniatáu i bartïon sydd â diddordeb annerch yr Awdurdod Archwilio ar faterion perthnasol o'u dewis. Caiff amser siarad ei rannu rhwng partïon sydd â diddordeb sy'n cofrestru ymlaen llaw. Mae'n bosibl y caiff partïon nad ydynt yn cofrestru ymlaen llaw eu clywed ar ddiwedd y cyfarfod os bydd amser ar gael, yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio. Does dim angen ailadrodd materion chodwyd yn y gwrandawriad llawr agored flaenorol.

**6. Gwrandawriad sy'n benodol i mater ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft** ar gyfer Gorchymyn drafft Opsiwn B a unrhyw faterion dyledus yn ymwneud a Gorchymyn ddrafft Opsiwn A

Dyddiad y gwrandawriad: Dydd Iau 10 Rhagfyr 2015

Amser y gwrandawriad: 10:00 y.b

Lleoliad: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych  
Sir Ddinbych LL16 3TB

Bydd y gwrandawriad hwn yn canolbwyntio ar fater penodol y Gorchymyn Caniatâd Ddatblygu drafft. Dyma'r gorchymyn y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei wneud pe bai'n dymuno cydsynio i'r cais. Mae'r drafodaeth yn y gwrandawriad hwn 'heb ragfarn'; ystyr hyn yw y caiff partïon wneud cyfraniadau er mwyn gwella ansawdd y Gorchymyn Caniatâd Ddatblygu drafft heb annilysu eu safbwyntiau, sef cefnogi neu wrthwynebu'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

Beth bynnag yw ei argymhelliad, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Archwilio gyflwyno Gorchymyn Caniatâd Ddatblygu drafft i'r Ysgrifennydd Gwladol. Nid yw trafodaeth am bethau penodol y Gorchymyn Caniatâd Ddatblygu drafft yn nodi bod yr Awdurdod Archwilio wedi penderfynu am y cais.

Mae'n debygol y bydd y gwrandawriad ynglŷn â'r Gorchymyn Caniatâd Ddatblygu drafft yn dechnegol ei natur a bydd yn seiliedig ar eiriad penodol y Gorchymyn drafft.

**Hysbysiad o arolygiad safle**

Mae'r Awdurdod Archwilio yn rhoi rhybudd o'r arolygiad safle gyda chwmni canlynol, gan gydymffurfio gyda Rheol 16 o'r Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Dyddiad yr arolygiad: Dydd Gwener 11 Rhagfyr 2015

Amser yr arolygiad: 9:30 y.b

Pwynt ymadael: Neuadd Tref Dinbych, Lôn y Goron, Dinbych, Sir Ddinbych  
LL16 3TB

Mae'r arolygiad safle hwn yn ddibynnol ar geisiadau yn cael eu gwneud erbyn y dyddiad cau, sef 18 Tachwedd 2015. Os na wneir unrhyw geisiadau, mae'n bosibl y caiff yr ymweliad ei ganslo. Caiff rhestr neu rybudd canslo ei ddarparu un wythnos ymlaen llaw ar dudalen we'r prosiect ar:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

**Argaeledd Dogfennau Archwilio**

Mae SP MANWEB, yr ymgeisydd, wedi darparu copi o'r dogfennau ymgeisio fel y gyflwynwyd i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w harolygu a'u copio yn Siopau Un Stop Dinbych a Llanelwy.

Mae'r holl ddogfennau ymgeisio, gan gynnwys sylwadau perthnasol a dogfennau ymgeisio, ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/NWWFConnection>

Gallwch edrych ar y dogfennau ar ffurf electronig yn y lleoliadau canlynol.

**Lleoliadau Dyddodi Electronig:**

Llyfrgell/ Cyfeiriad		Oriau Agor	
Llyfrgell Dinbych Hall Square Dinbych LL16 3NU		Dydd Llun – 9.30 y.p-7 y.b Dydd Mawrth – 9.30 y.p-5 y.b Dydd Mercher – 9.30 y.p-5 y.b Dydd Iau – 1 y.b-5 y.b Dydd Gwener – 9.30 y.p-5 y.b Dydd Sadwrn – 9.30 y.p-12.30 y.b Dydd Sul – ar gau	
Llyfrgell Llanelwy The Roe Llanelwy LL17 OLU		Dydd Llun – 9.30 y.p-4.30 y.b Dydd Mawrth – 1 y.b-4.30 y.b Dydd Mercher – 9.30 y.p-4.30 y.b Dydd Iau – ar gau Dydd Gwener – 9.30 y.p-4 y.b Dydd Sadwrn – ar gau Dydd Sul – ar gau	
Costau Argraffu	Argraffu Du a Gwyn	Copïo Du a Gwyn	Argraffu Iliw
<b>A4</b>	15c	10c	35c
<b>A3</b>	Ddim yn berthnasol	15c	Ddim yn berthnasol
<b>Dolen i leoliad pob llyfrgell y Cyngor:</b>			
<a href="http://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/libraries-and-archives/libraries-and-archives.aspx">www.denbighshire.gov.uk/en/resident/libraries-and-archives/libraries-and-archives.aspx</a>			
<a href="http://www.conwy.gov.uk/sectionextra.asp?catid=6579">www.conwy.gov.uk/sectionextra.asp?catid=6579</a>			